



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Newid Arferion Iaith y Gweithlu

Adnabod arferion iaith y gweithlu er mewn annog y defnydd o'r Gymraeg

Dyddiad: Hydref 2018

Mae Prifysgol Bangor wedi sefydlu prosiect ARFer sydd â'r nod o sicrhau gwell dealltwriaeth o ddefnydd iaith ymysg cydweithwyr er mwyn teilwra ymyraethau a chefnogaeth i annog y defnydd o'r Gymraeg mewn gweithle dwyieithog.

DYLETSWYDDAU STATUDOL

Mae'r safonau'r Gymraeg yn gosod dyletswydd ar sefydliadau i hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn fewnol. Mae'r safonau hefyd yn gosod dyletswydd ar gyrfff cyhoeddus i gasglu data ar allu iaith staff. Awydd y Brifysgol i weld 'y tu hwnt i'r data' oedd y sbardun ar gyfer sefydlu prosiect ARFer.

CEFNDIR Y PROSIECT

Mewn arolygon mewnol, mae 45% o weithlu'r Brifysgol wedi nodi eu bod yn 'Siarad Cymraeg' a 26% yn nodi eu bod yn 'Siarad Ychydig o Gymraeg'. Bwriad y cynllun oedd gweld y tu hwnt i'r data yma a deall pryd mae staff yn siarad Cymraeg, gyda phwy a pham (neu pam ddim). Roedd awydd i:

- ddeall mwy am sut mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio o ddydd i ddydd gan staff;
- dysgu mwy am ymddygiad iaith;
- creu sail tystiolaeth o'r ymddygiad hwnnw er mwyn gallu teilwra ymyraethau a chefnogaeth yn effeithiol.

Mae Prifysgol Bangor yn gartref i Ganolfan Bedwyr (Canolfan Gwasanaethau, Technoleg ac Ymchwil y Gymraeg) ble y cyfunir arbenigedd cynllunio iaith ym maes polisi, cyfieithu, hyfforddiant, technoleg a thermâu. Mae'r Brifysgol hefyd yn gartref i dîm o seicolegwyr sydd yn arbenigo ar seicoleg newid ymddygiad ac sydd wedi sefydlu Canolfan Newid Ymddygiad Cymru. Mae seicoleg newid ymddygiad wedi ei ddefnyddio'n helaeth mewn meysydd polisi cyhoeddus fel iechyd a'r amgylchedd ond prin iawn yw ei ddefnydd ym maes iaith. Roedd cyfle felly i gyfuno arbenigedd cynllunio

ieithyddol Canolfan Bedwyr gydag arbenigedd seicoleg newid ymddygiad y Brifysgol er mwyn datblygu dulliau newydd o ymateb i gyfleodd, cwestiynau a heriau ym maes y Gymraeg. Drwy gynllun PhD dan nawdd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, aethpwyd ati i gynllunio'r gwaith. Un o brosiectau'r PhD yw'r rhaglen ARFer.

RHAGLEN ARFer

Mae'r rhaglen ARFer yn fethodoleg sydd wedi'i hysbrydoli gan broiect [Aldahitz](#) a gynlluniwyd gan gwmni Soziolinguistika Klusterra yng Ngwlad y Basg. Mae'r prosiect wedi'i selio ar ddwy egwyddor sydd yn deillio o'r gwyddorau ymddygiad, sef:

- gwneud **ymrwymiad** i ymddwyn mewn ffordd benodol;
- manteisio ar y dylanwad sylweddol mae **rhagosodiadau** yn gallu ei gael ar ymddygiad pobl.

Yn ei hanfod, felly, mae ARFer yn rhaglen sydd yn gofyn i unigolion wneud ymrwymiad i ddefnyddio'r Gymraeg fel yr iaith ragosodedig ('default') gyda'r nod o sefydlu defnydd o'r Gymraeg yn norm.

Treialwyd ARFer mewn adran o fewn y Brifysgol oedd yn cynnwys 22 aelod staff. Roedd gan y staff yma broffil iaith amrywiol gyda tua 64% yn siaradwyr rhugl, 22% yn siarad ychydig o Gymraeg a 14% heb sgiliau yn y Gymraeg. Fel rhan o'r rhaglen gofynnwyd i bum aelod staff (~20%) wneud ymrwymiad iaith i ddefnyddio'r Gymraeg fel yr iaith rhagosodedig gyda'u cydweithwyr oedd â'r gallu i'w deall nhw. Y pum unigolyn yma oedd y 'Galluogwyr ARFer'. Roedd gan y ddau aelod ar bymtheg arall o staff 'ryddid iaith' – hynny yw, roeddent yn rhydd i ddefnyddio'r Gymraeg neu Saesneg gyda'r galluogwyr ARFer a chydweithwyr eraill.

TECLYN ARSYLWI DWYIEITHRWYDD

Er mwyn gallu gwerthuso a oedd y rhaglen ARFer yn cael effaith wirioneddol ar ymddygiad iaith yr adran, roedd yn rhaid dysgu pa mor aml yr oedd y Gymraeg yn cael ei defnyddio **cyn** cyflwyno'r rhaglen. Hynny yw, roedd yn rhaid casglu data gwaelodlin ar ddefnydd iaith yr adran. Er mwyn casglu'r data hwnnw, datblygwyd y Teclyn Arsyllwi Dwyieithrwydd. Tabl yw hwn sydd yn ein galluogi i nodi'n fanwl pa iaith a ddefnyddir o fewn sgwrs rhwng dau gydweithiwr a pha aelodau eraill o staff sy'n bresennol. Er mwyn sefydlu data gwaelodlin, arsyllwyd gwerth 128 awr o sgysiau yn yr adran dros gyfnod o wyth wythnos. Roedd y data gwaelodlin yn dangos bod y Gymraeg yn cael ei defnyddio ychydig dros 25% o'r amser yn yr adran dan sylw.

TRAWEFFAITH Y PROSIECT

Tra yr oedd y rhaglen ARFer ar waith yn yr adran, aethpwyd ati i gasglu data am ymddygiad iaith yn yr un modd drwy ei gofnodi ar y Teclyn Arsylwi Dwyieithrwydd. Cynhaliwyd y rhaglen ARFer dros 13 wythnos a chafodd 214 awr o sgysiau eu harsylwi.

Dengys y data a gasglwyd tra roedd rhaglen ARFer ar waith fod y defnydd o'r Gymraeg yn yr adran wedi mwy na dyblu yn ystod cyfnod yr ymyrraeth o'i gymharu â'r defnydd o'r Gymraeg yn ystod cyfnod sefydlu'r gwaelodlin. Yn ystod y cyfnod gwaelodlin defnyddiwyd y Gymraeg yn yr adran ychydig dros 25% o'r amser. Yn ystod cyfnod yr ymyrraeth, defnyddiwyd y Gymraeg ychydig o dan 60% o'r amser. Dangosodd profion y Brifysgol (gan ddefnyddio prawf chi-sgŵar) bod hyn yn newid arwyddocaol yn ymddygiad y staff ac felly hefyd yn eu defnydd o'r Gymraeg.

Mae'r rhaglen ARFer wedi cael ei beilota'n llwyddiannus mewn un adran o fewn y Brifysgol. Gyda golwg at y dyfodol, y nod yw y bydd modd dysgu o brofiadau'r rhai fu'n rhan o'r peilot a mireinio'r rhaglen ac y gellir cynnal y rhaglen mewn cyd-destunau eraill a dysgu sut i'w haddasu'n effeithiol. Mae'r Brifysgol hefyd yn bwriadu creu 'Pecyn ARFer' fydd yn galluogi sefydliadau eraill i weithredu'r rhaglen yn effeithiol.

AGWEDDAU TROSGLWYDDADWY

Roedd y ffactorau canlynol yn greiddiol i lwyddiant yn cynllun:

- buddsoddi mewn rhaglen sydd yn cefnogi dyhead staff i ddefnyddio'r Gymraeg;
- pwysigrwydd creu cyd-destun sydd yn arfogi staff i ddefnyddio'r Gymraeg;
- pwysigrwydd cefnogi siaradwyr Cymraeg (yn ogystal â dysgwyr) i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith;
- pwysigrwydd deall patrymau defnydd iaith cyn ceisio dylanwadu arnynt.

Manylion cyswllt

Enw: Dr Lowri Hughes

Sefydliad: Prifysgol Bangor

E-bost: l.a.hughes@bangor.ac.uk

BARN Y COMISIYNYDD

Er mwyn hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg o fewn y gweithle mae'n allweddol bwysig bod sefydliadau â dealltwriaeth o ddefnydd iaith y gweithlu. Credaf bod y prosiect ARFer yn cynnig methodoleg effeithiol i newid ymddygiad aelodau o staff trwy deilwra ymyraethau a chefnogaeth mewn modd nad yw'n gymhleth a chostus.